



Plaid.
Gwahaniaeth
i Gymru.

**Datblygu
Awdurdodaeth
Gyfreithiol
i Gymru**

Rhagair

Ers dyfodiad datganoli yng Nghymru dros ddeg mlynedd yn ôl mae'r ffordd y caiff ein cenedl ei llywodraethu wedi newid yn sylweddol.

Tra'n bod ni yng Nghymru wedi bod yn dathlu sefydlu ein Cynulliad Cenedlaethol, bu pobl yr Alban yn dathlu ail-gynull eu Senedd hwy.

Un o'r rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng pŵerau'r ddau sefydliad oedd bod gan yr Alban awdurdodaeth gyfreithiol ar wahan a system gyfiawnder droseddol ei hun. Nid oedd hyn yn wir yn achos Cymru.

Mae newidiadau yn digwydd o fewn y system gyfreithiol Gymreig a fyddai wedi bod yn anghredadwy rhai blynyddoedd yn ôl. Sefydlu Cymru'r Gyfraith, sefydlu'r Llys Gweinyddol i Gymru, eisteddiadau rheolaidd y Llys Apêl (sifig a troseddol) yng Nghaerdydd ac mae achosion adolygiad barnwrol sydd yn ymwneud â chyrrff cyhoeddus Gymreig yn cael eu clywed yng Nghymru.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mwynhau pŵerau deddfu cyfyngedig, ac yn dilyn refferendwm llwyddiannus, bydd yn gallu deddfu yn y meysydd datganoledig heb ymyraeth San Steffan.

Wrth i gorff unigryw o gyfraith Gymreig ddatblygu, mae'n anochel y bydd angen trafod y syniad o awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig ar wahan.

Dangosodd pŵl diweddar gan YouGov bod 63% o bobl Cymru yn credu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol feddiannu pŵerau cydradd i Senedd yr Alban. Byddai creu awdurdodaeth cyfreithiol Gymreig ar wahan yn gam allweddol yn y cyfeiriad yna.

Fel y blaid i Gymru, mae gennym ddyletswydd i fod ar flaen y gad yn y trafodaethau yma.

Fel Arweinydd Grŵp Seneddol Plaid Cymru yn San Steffan a Chyfarwyddydd Polisi'r Blaid rydym yn croesawu'n gynnes y papur trafod gwych yma gan y gyfreithwraig Fflur Jones.

Mae Fflur yn darparu dadansoddiad arbennig o'r strwythur presenol yng Nghymru ac yn cynnig awgrymiadau pendant ynglŷn â chreu awdurdodaeth cyfreithiol Gymreig, yn y dyfodol.

Mae Cymru yn tyfu'n genedl hyderus. Mae diwylliant a chymdeithas sifig yng Nghymru yn cryfhau. Yn fuan daw yr amser pan y bydd Cymru yn barod i gymryd cyfrifoldeb llawn dros weinyddu cyfiawnder.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn anfon unrhyw sylwadau sydd gennych atom.

Diolch yn fawr

Elfyn Llwyd

Nerys Evans



**Arweinydd Grŵp Seneddol Plaid
Cymru**

**Cyfarwyddydd Polisi Plaid
Cymru**

Datblygu awdurdodaeth ar wahân i Gymru

Awdurdodaeth Cymru a Lloegr - y sefyllfa cyn 1998

Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ers 1536 bu Cymru yn rhan annatod o awdurdodaeth gyfreithiol unedol Cymru a Lloegr. Yr oedd gan yr Alban ac Iwerddon eu seneddau eu hunain hyd at 1707 a 1801. Pan unwyd y rhannau hyn gyda San Steffan, cadwyd systemau cyfreithiol gwahanol yr Alban ac Iwerddon, ynghyd â'u systemau o lysoedd a phroffesiynau cyfreithiol ar wahân. (1)

Ar y llaw arall, un o brif ddibenion Deddf Cyfreithiau yng Nghymru 1536 oedd cymhwyso cyfraith Lloegr i Gymru. Mae Cymru ers hynny felly wedi rhannu systemau ei llysoedd, proffesiynau cyfreithiol a chyfreithiau sylfaenol gyda Lloegr. Fodd bynnag, nid oedd Deddf 1536 yn gwneud i ffwrdd ag adnabod Cymru fel endid ar wahân, a chadwyd mân wahaniaethau eraill rhwng y gwledydd, a'u datblygu dros y canrifoedd. Er enghraifft, parhaodd yr eithriad parthed rheol cyfraith gwlad am farchnad agored yng Nghymru ond nid yn Lloegr o 1536 hyd nes i gyfundrefnu ddigwydd trwy Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1994; byddai deddfwriaeth achlysurol yn cael ei basio gan San Steffan oedd mewn grym yng Nghymru yn unig (o ganol y 19eg ganrif ymlaen yn arbennig); rhoddodd Deddf Llysoedd Cymru 1942 hawl cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd yng Nghymru; sefydlwyd y Swyddfa Gymreig ym 1965, a dilynodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 yn fuan wedyn - a ddiddymodd o'r diwedd y ddarpariaeth warthus mewn Deddf oedd yn dyddio o 1746 (a adwaenid yn gyffredinol fel Deddf Cymru a Berwick on Tweed) lle'r oedd unrhyw gyfeiriad at Loegr mewn Deddf Seneddol i'w drin fel petai'n cynnwys Cymru. (2)

Ar waethaf y mân wahaniaethau hyn rhwng Cymru a Lloegr er hynny, yr oedd yn arwyddocaol mai diffyg 'awdurdodaeth' iawn yng Nghymru a ddyfynnwyd gan Gomisiwn Kilbrandon ym 1973 fel cyfiawnhad dros gynnig llai o bwerau datganoledig i Gymru o gymharu â'r Alban bryd hynny.

Felly mae deddfwriaeth a wneir mewn perthynas â Chymru yn unig neu sydd a wnelo â Chymru a Lloegr yn dal i allu cael ei gymhwyso neu ei orfodi gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd, a Llysoedd Cyfiawnder Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr felly fu'r llysoedd sifil a throseddol sydd yn gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd (gyda rhai mathau eraill o 'lysoedd a thriwlynlysoedd arbenigol' a ddefnyddir hefyd ar gyfer pynciau arbenigol megis materion eglwysig, prisiau pryddesi ac ati). Mae'r eithriadau i hyn yn bennaf ym maes cyfraith mewnfudo, gan fod awdurdodaeth y Tribiwnlys Mewnfudo yn ymestyn dros y DG gyfan, tra bod un system o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth mewn cyfraith cyflogaeth i Loegr, Cymru, a'r Alban (ond nid Gogledd Iwerddon).

System y Llysoedd Sifil – gweinyddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder / Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, sef yn bennaf:

- Y Cyfrin Gyngor
- Y Goruchaf Lys (Ty'r Arglwyddi yn y gorffennol)
- Y Llys Apêl
- Uwch Lys Cyfiawnder
- Llysoedd Sirol
- Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth
- Tribiwnlys Tiroedd
- Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo

System y Llysoedd Troseddol – gweinyddir gan y Twrnai Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac yn cynnwys yn bennaf:

- Y Goruchaf Lys (Ty'r Arglwyddi yn y gorffennol)
- Y Llys Apêl
- Uwch Lys Cyfiawnder
- Llys y Goron
- Llys Ynadon

Hefyd, mae'r system gyfiawnder – sef gwasanaethau'r heddlu, y gwasanaethau prawf a charchardai wedi ac yn parhau yn bennaf i gael eu cyllido a'u gweinyddu o San Steffan, fel hefyd y mae materion nawdd cymdeithasol yn cael eu cyllido a'u gweinyddu trwy wahanol Dribiwnlysoedd.

Beth ddigwyddodd ers datganoli? – Esblygiad Datganoli

Tra'r erys y trefniadau uchod fwy neu lai, mae newidiadau cyffrous wedi digwydd i'r ffordd y gweinyddir cyfreithiau yng Nghymru ers diwedd y '90au. Yn wir, mae Winston Roddick yn disgrifio digwyddiadau awdurdodaethol wedi 1997 fel 'datblygiadau oedd yn addasiad byrffyr i beirianwaith cyfiawnder yng Nghymru

mewn ymateb i ddatganoli', neu arwyddion, fel y dywedodd Tîm Jones, o 'egin-awdurdodaeth gyfreithiol Cymru.'⁽³⁾

Awdurdodaeth Cymru a Lloegr dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Yn niffyg pwerau creu prif ddeddfau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gryn swm o is-ddeddfwriaeth, a dyfynnodd Winston Roddick y 1,117 offeryn statudol a basiwyd yn ystod 4 blynedd gyntaf oes y Cynulliad. Yr oedd canran uchel iawn ohonynt naill ai yn unigryw i Gymru, neu lle'r oeddent yn cyfateb i ddeddfwriaeth gyffelyb a wnaed yn Lloegr, yr oedd yno wahaniaethau sylweddol mewn drafftio oed dyn adlewyrchu amgylchiadau gwahanol Cymru. Ers 1998 hefyd, yr oedd llawer o'r brif ddeddfwriaeth a ddeilliodd o San Steffan yn gymwys yn unig i Gymru. Y rheswm pam fod y deddfau hyn yn unigryw i Gymru neu yn wahanol i'w deddfwriaeth gyfochrog yn Lloegr yw am eu bod yn adlewyrchu amgylchiadau gwahanol ac esblygol Cymru.⁽⁴⁾

Rhoddyd statws drafftio cyfartal hefyd i'r Gymraeg a'r Saesneg, felly rhaid i bob cyfraith - prif ddeddfwriaeth neu is-ddeddfwriaeth - a ddaw o CCC fod yn ddwyieithog, gan wyro mwy fyth oddi wrth yr hen status quo o 'Gymru a Lloegr' fel un endid awdurdodaethol, gan fod y testunau Gymraeg a Saesneg yn gyfwerth.

Awdurdodaeth Cymru a Lloegr dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae darpariaeth DLIC 2006 sy'n galluogi'r Cynulliad yn awr i ddeddfu gyda Mesurau parthed Materion penodol yn y meysydd datganoledig yn Atodlen 5 y Ddeddf. Mae hyn eisoes yn cynyddu'r gyfradd sy'n peri bod ein cyfreithiau ni yn dod yn wahanol i rai Lloegr. O ganlyniad, gall materion yr ymdrinnir â hwy yn Lloegr dan Ddeddfau Seneddol gael eu trin dan Fesurau Cynulliad yn wahanol ar gyfer Cymru. Wrth i fwy o Faterion gael eu pennu (naill ai trwy Ddeddf Seneddol neu trwy LCO a gychwynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol) fe ddaw'r gwahaniaethu hwn yn fwy.

I adlewyrchu'r ymdaith hon tuag at fwy o bwerau deddfu yn y Cynulliad Cenedlaethol, rhwng 1998 a 2008 cymerwyd y camau canlynol eisoes tuag at sefydlu awdurdodaeth Gymreig ar wahân:

1. Creu Cymru'r Gyfraith – cymdeithas gyfreithiol sifil i ymwneud â'r drefn newydd a ddaeth i fod ers DLIC 1998
2. 2000 – Sefydlwyd Llys Gweinyddol i Gymru yng Nghaerdydd (rhan o lysoedd yr adran sifil)
3. Mae adran sifil y Llys Apêl yn awr yn eistedd yn rheolaidd yng Nghaerdydd
4. Mae adran droseddol y Llys Apêl hefyd yn eistedd yn rheolaidd yng Nghaerdydd

5. Gwrandewir ar y rhan fwyaf o achosion adolygiad barnwrol sy'n ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau cyhoeddus Cymru gan gynnwys CCC yng Nghymru
6. Mae Tribiwnlysoedd Apeliadau Cyflogaeth yn awr yn eistedd yn rheolaidd yng Nghymru
7. Llys y Siawnsri yng Nghymru – bu'n eistedd yng Nghymru ers cyn 1998, ond gan rannu ei awdurdodaeth gyda Bryste. Daeth y rhannu i ben ym 1998.
8. Ebrill 2007 – ad-drefnu ffiniau gweinyddol gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM) – daeth rhanbarth weinyddol Cymru a Chaer i ben, gan ddod yn hytrach yn GLIEM Cymru. Ers hynny, gweinyddir gwasanaethau'r Llysoedd yng Nghymru ar sail Cymru gyfan. (5)

Datganoli deddfwriaethol llawn – y ffordd ymlaen yn y dyfodol agos

Yr ydym yn hen gyfarwydd â phroblemau pasio deddfwriaeth sylfaenol trwy'r cyfrwng y darperir ar ei gyfer dan DLIC 2006. Y mae'r Ddeddf, fodd bynnag, yn rhoi sail statudol i drosglwyddo mwy o bwerau i'r Cynulliad heb fod angen deddfwriaeth o'r newydd, ar yr amod y ceir pleidlais gadarnhaol gyntaf mewn refferendwm ar y pwnc yng Nghymru. Petai hyn yn digwydd, yna byddai LICC yn cyhoeddi gorchymyn cychwyn (adran 105 y Ddeddf) ac wedi hynny fe ddeuai Rhan 3 y Ddeddf yn lle Rhan 4 (a106) a gallai'r Cynulliad basio Deddfau'r Cynulliad mewn perthynas â'r meysydd a bennir yn Atodlen 7. Mae'r drefn ar gyfer pasio Deddfau'r Cynulliad (a110-111) a'r system graffu cyn ac ar ôl deddfu yn fras yr un fath ag ar gyfer Mesurau Cynulliad , (a112).

Unwaith eto felly, dylai'r cwm hwn ddwyn Cymru yn nes at gyrraedd y 5 cydran hanfodol o system gyfreithiol benodol Gymreig a nodwyd gan Syr Roderick Evans, (6) sef:

1. Dychweliad swyddogaethau creu cyfraith i Gymru
2. Datblygu yng Nghymru system i weinyddu cyfiawnder yn ei holl ffurfiau sydd wedi ei theilwrio i anghenion economaidd a chymdeithasol Cymru
3. Datblygu sefydliadau a chyrrff proffesiynol a fydd yn rhoi strwythur gyrfa gwirioneddol yng Nghymru i'r sawl sydd am ddilyn gyrfa yn y meysydd hynny
4. Gwneud y gyfraith yn hygyrch a hawdd ei deall gan bobl Cymru
5. Datblygu system sydd â lle i ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg – gan roi statws cyfartal i'r ddwy

Datganoli deddfwriaethol llawn – y ffordd ymlaen yn y tymor hwy

Fodd bynnag, nid yw hawliau Cymru dan DLIC 2006 - hyd yn oed dan Ran 4 ac Atodlen 7 - yn dilyn model yr Alban, lle nodir materion a gedwir yn ôl i San Steffan a lle datganolir popeth arall. Yn hytrach, mae Atodlen 7 DLIC 2006 yn cynnwys rhestr bellach o'r pwerau hynny a ddatganolir yn benodol i CCC. Yr esboniad a roddwyd am hyn oedd, tra bod yr Alban yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân "Nodwedd bwysig o gymhwysedd deddfwriaeth mwy y Cynulliad yw y bydd yn deddfu y tu mewn i awdurdodaeth Cymru a Lloegr unedig" (Bush 2006). Gwnaeth memorandwm ar y Cyd a gyhoeddwyd yn 2005 hefyd y pwynt hwn:

"Petai gan y Cynulliad yr un pŵer i ddeddfu â Senedd yr Alban, yna byddai'r canlyniadau i undod awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn sylweddol. Wrth i amser fynd yn ei flaen, byddai mwy a mwy o alw ar y llysoedd i gymhwyso egwyddorion cyfraith a rheolau cyfraith cyffredinol fyddai'n sylfaenol wahanol yng Nghymru i'r rhai fyddai'n gymwys yn Lloegr. Y canlyniadau ymarferol fyddai'r angen am systemau gwahanol o addysg gyfreithiol, gwahanol farnwyr a chyfreithwyr a gwahanol lysoedd. Fe ddeuai Cymru a Lloegr yn awdurdodaethau cyfreithiol ar wahan... er mwyn osgoi'r canlyniad hwn, yr ateb symlaf yw dilyn model Deddf yr Alban 1978, gan gyfyngu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i bynciau penodol." (7)

Mae'r safbwynt hwn felly fel pe bai yn mynd yn ôl yn syth i ganfyddiadau adroddiad Comisiwn Kilbrandon ym 1973. Ymddengys bod y rhesymeg y tu ôl i drin Cymru a'r Alban yn wahanol yn wreiddiedig iawn o hyd yn y ffaith fod gan yr Alban awdurdodaeth gyfreithiol ar wahan, nad yw gan Gymru.

Pa mor bwysig / angenrheidiol felly yw cael awdurdodaeth Gymreig ar wahan y gellir datganoli pwerau deddfwriaethol iddi gan ddefnyddio'r agwedd Albanaidd?

Mae cael cydraddoldeb â'r Alban o ran y 'model pwerau a gedwir yn ôl' sydd yn Neddf yr Alban 1998 yn hanfodol bwysig i ddatblygiad Cymru fel cenedl gyda phwerau deddfu llawn yn ei hawl ei hun. Yn wyneb y gwrthwynebiad hanesyddol i'r cyfryw gynigion o ganlyniad i ddiffyg awdurdodaeth Gymreig ar wahan yng Nghymru, unwaith i'r refferendwm gael ei ennill ac y bydd Rhan 4 ac Atodlen 7 DLIC 2006 mewn grym, dylid canolbwyntio yn gyntaf ar sefydlu'r lleiafswm o awdurdodaeth benodol Gymreig sy'n gydnaws â throsglwyddo pwerau ar y model Albanaidd - oherwydd heb fwy o ddatganoli pwerau awdurdodaethol a gweinyddu cyfiawnder i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, mae unrhyw alw am symud at y model pwerau a gedwir yn ôl yn debyg o gael ei wrthwynebu gan rai pleidiau gwleidyddol / y cyhoedd yn gyffredinol ar y sail nad oes gan Gymru y systemau gweinyddol priodol i ymdopi â phwerau o'r fath. Gellid beirniadu unrhyw alwadau o'r fath am fwy o bwerau ar y llinellau hyn ar y sail nad oes cyfiawnhad heb fod rhyw fath o system weinyddol i gefnogi'r pwerau deddfu mwy hyn yno i ddechrau.

Sut i wneud hyn – y modelau 'Isafswm ac Uchafswm'

Er mwyn asesu sut i gyrraedd y nod tymor hir hwn, doeth o beth fyddai rhestru'r materion hynny y gellid eu cyrraedd dan y drefn ddatganoli bresennol (model isafswm datganoli) a'r materion awdurdodaethol a gweinyddol hynny nad yw'n ymddangos y gellir eu datganoli hyd nes y bydd gennym setliad cyfansoddiadol newydd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru arall. Mewn geiriau eraill, mae'r camau a restrir dan y 'model isafswm' isod yn llunio 'blwch gweinyddol' lle bydd modd cynnwys arfau datganoli awdurdodaethol llawn unwaith i fwy o bwerau gael eu rhoi i'r Cynulliad trwy setliad deddfwriaethol pellach.

Ymddengys felly mai'r materion hynny sy'n dod dan y 'model isafswm' :

1. Mae Cytundeb Cymru'n Un eisoes yn cynnwys ymrwymiad i ystyried (a) dichonoldeb datganoli'r system cyfiawnder troseddol yng nghyd-destunau cyllid datganoli a (b) symud tuag at sefydlu un weinyddiaeth gyfiawnder yng Nghymru.
2. Unwaith i'r refferendwm gael ei ennill, a bod Atodlen 7 yn ei lle, dylid ceisio ehangu darpariaethau Atodlen 7 DLIC 2006 i gynnwys "*gweinyddu cyfiawnder*" fel maes datganoledig i CCC. Mae Atodlen 109 y Ddeddf yn cynnwys darpariaeth am sut i ddiwygio Atodlen 7 trwy Orchymyn yn y Cyngor:
3. Yn y maes '*gweinyddu cyfiawnder*' yng Nghymru, cynnwys⁽⁸⁾:
 - a. Sefydlu gwasanaeth erlyn annibynnol i Gymru.
 - b. Gweinyddu pellach ar y llysoedd i ddod yn gyfrifoldeb Cymreig ac i fabwysiadu hunaniaeth bendant Gymreig. Adlewyrchir y mater hwn eisoes i raddau yn darpariaethau Cytundeb Cymru'n Un, a'r datganoli gweinyddiaeth sydd eisoes wedi digwydd fel y rhestrwyd ar dudalen 3.
 - c. Trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros weinyddu cyfiawnder i LCC a sefydlu Swyddogion Cyfraith Cymreig anwleidyddol, amhleidiol, fel sy'n bod eisoes yn yr Alban.
 - d. Trefniadaeth ar gyfer dethol y farnwriaeth ac ynadon ac aelodau o dribiwnlysoedd yn gweithredu yng Nghymru ar argymhelliad Comisiwn Penodiadau Barnwrol Cymreig neu gorff cyffelyb arall a fydd yn endid Cymreig ar wahân, er yn aros yn atebol i adran yr Ysgrifennydd Gwladol / Arglwydd Ganghellor am y tro hyd a hyd nes y caiff y Cynulliad fwy o bwerau deddfu.
 - e. Sefydlu awdurdodau gweinyddol i wasanaethu'r system gyfreithiol (digwyddodd hyn eisoes ac mae'n dal i ddigwydd).
 - f. Darpariaeth ariannol ychwanegol, digon i dalu costau system y llysoedd a gweinyddu cyfiawnder.
 - g. System cymorth cyfreithiol *ar wahan* i'r hyn sy'n gweithredu yn Lloegr – h.y., un sydd â hunaniaeth bendant Gymreig

h. Efallai y bydd modd datganoli GEG i Gymru ar lefel weithredol.

Y model uchafswm – rhai o'r arfau fydd wedyn yn helpu Cymru i ymgymryd â datganoli awdurdodaethol a gweinyddol llawn:

1. Cyfrifoldeb dros y gwasanaeth prawf, carchardai a'r heddlu. Byddai hyn yn unol ag ymrwymiad y pedwar heddlu Cymreig, sydd eisoes wedi ei ddatgan, i gydweithredu ar lefel genedlaethol Gymreig a ddylai hwyluso'r symudiad tuag at system blismona ddatganoledig yng Nghymru. Mae'r heddluoedd eisoes wedi sefydlu cyrff cenedlaethol megis Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ac Awdurdodau Heddlu Cymru, ac y maent yn cydweithredu ar brosiectau megis hyfforddiant iaith, ond gall gofynion cyllidebol gweinyddu'r heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf olygu mai gwell fyddai gadael lonydd i'r meysydd hyn hyd nes y caiff Cymru fwy o bwerau deddfu - ac o bosibl bwerau codi referniw, neu y daw'r Cynulliad Cenedlaethol i gytundeb ar ddatganoli cyllideb neu gyllid digonol i dalu am y materion hyn.
2. Cyfrifoldeb dros system nawdd cymdeithasol ar wahan a'i gorfodi. Unwaith eto, gall ystyriaethau cyllidebol olygu mai gwell fyddai gadael lonydd i'r maes hwn hyd nes y datganolir mwy o bwerau i Gymru. Gallai datblygu system nawdd cymdeithasol sy'n sylfaenol wahanol i'r hyn a ddarperir yn Lloegr hefyd greu problemau penodol ym maes mudo/twyll budd-daliadau a materion tebyg a allai wthio'r gofynion cyllidebol ymhellach fyth er mwyn gweinyddu'r system.
3. System o gymorth cyfreithiol sydd ar wahan i'r hyn sy'n gweithredu yn Lloegr ac a weinyddir ar sail Cymru yn unig.
4. Proffesiwn cyfreithiol Cymreig gyda'i drefniadau ei hun ar gyfer rheoleiddio a'i ofynion mynediad ei hun. Tra bod camau eisoes wedi eu cymryd i sefydlu Cymru'r Gyfraith / cylchdaith Cymru etc i ddatblygu hunaniaeth benodol Gymreig i gyfreithwyr sy'n gweithio yng Nghymru, byddai prifysgolion yng Nghymru, er enghraifft, yn debygol o ddioddef pe na baent ond yn gallu cynnig cyrsiau i hyfforddi cyfreithwyr Cymreig na allent weithio yn unman arall. Mae llawer o gwmnïau cyfreithiol yn dibynnu am eu bara menyn ar gleientiaid o Loegr, felly gellid dadlau mai nod tymor hir iawn yw hwn. Efallai mai mwy deniadol fyddai datblygu system fel yr un sy'n bodoli rhwng cyfreithwyr Cymru a Lloegr a'u cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, lle mae cymwysterau proffesiynol y naill wlad yn cael eu cydnabod yn y llall i raddau helaeth, yn hytrach na'r sefyllfa yn yr Alban, lle mae angen croes-gymhwysio llawn os dymuna cyfreithiwr o Gymru neu Loegr weithio y tu mewn i gyfraith yr Alban.
5. Rheolau priodol i bennu cymwysterau am yr hawl i arfer y gyfraith yng Nghymru, gan gynnwys efallai allu dwyieithog. Mae'r sylwadau ym mhwynt 13 hefyd yn gymwys i'r nod hwn.
6. Hyfforddiant cyfreithiol wedi ei anelu yn benodol at arfer cyfraith Cymru

7. Cyhoeddi cyfreithiau sydd yn ymwneud â Chymru a rheolau arfer Cymreig yn ddwyieithog a systemaidd. Gallai hyn fod yn isafswm nod yn dibynnu ar oblygiadau cyllidebol gwthio am ofyniad o'r fath, a chan gadw mewn cof fod cyfreithiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog a bod y ddwy iaith yn cael statws cyfartal.
8. Mwy a helaethach datganoli ar y materion a gafwyd eisoes dan y 'Model isafswm'.

Ystyriaethau polisi eraill

Fel y gellir gweld o restr y 'model isafswm' uchod, mae ystod eang posibl y newidiadau i Atodlen 7 i ddatganoli pwerau dros weinyddu cyfiawnder fel y'u hystyriwyd uchod hefyd yn annhebygol o lwyddo yn eu cyfanrwydd gan y bydd llawer ohonynt yn gorgyffwrdd â materion lle dymuna San Steffan gadw gafael tynn iawn ar bethau. Dylid yn gyntaf geisio cyngor penodol ar sut i gael datganoli awdurdodaethol helaeth o'r fath trwy gyfrwng newidiadau i Atodlen 7 cyn galw gyda chyfiawnhad am yr angen am Ddeddf newydd i Gymru ar linellau'r model pwerau a gedwir yn ôl sydd yn Neddf yr Alban 1998. Fel y dywedodd Winston Roddick, ni ddylid tybio y gallai'r broses esblygiadol sy'n digwydd ar hyn o bryd arwain yn y pen draw at ddatganoli gweinyddu cyfiawnder yn gyfan gwbl. Yn hytrach, byddai angen cynnwys y newidiadau awdurdodaethol mwy sylweddol a'r gwahaniad pwerau yng nghyswllt hynny fel rhan o Ddeddf hollol newydd ar gyfer Cymru - lle gallai'r eitemau hynny ar restr y 'Model uchafswm' 'ddisgyn' i'r gragen weinyddol a grëwyd eisoes gan y setliad presennol. Byddai angen hyn i osgoi'r hyn a ddisgrifiodd Comisiwn Richard fel *"datblygu ad hoc, tameidiog fesul achos, heb fod yn seiliedig ar unrhyw bolisi cyffredinol y cytunwyd arno nac ar sail unrhyw gyfres glir o egwyddorion yn ymwneud â datganoli"*. Wrth drafod deddf newydd i Gymru, felly, dylai materion megis cyfansoddiad y Goruchaf Lys, i gynnwys digon o gynrychiolwyr Cymreig, etc., hefyd gael eu diffinio'n iawn a chytuno arnynt, a'u cynnwys ar y llyfr statud.

Am y rhesymau uchod, mae'r broses o ennill datganoli awdurdodaethol llawn i Gymru felly yn annhebyg o ddigwydd yn y tymor byr. Fodd bynnag, dylid ceisio'r newidiadau 'model lleiafswm', hyd eithaf ein gallu, ynghyd â lansio ymgyrch bendant fydd yn cyfeirio at setliad yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r gwahaniaeth rhwng un Cymru – gan ddnagos for y setliad yng Nghymru yn waeth o lawer na'r hyn sydd gan yr Alban.

Dylid ymdrechu hefyd i gryfhau'r ewyllys wleidyddol ar draws y gwahanol bleidiau i gael datganoli awdurdodaethol rhannol, ac yna yn llawn, i Gymru. Dylid sefydlu confensiwn i edrych yn fanylach ar y pynciau fyddai'n codi o sefydlu awdurdodaeth Gymreig ar wahan. Gellid dadlau y byddai'n haws ymdrin â gwrthwynebiad unrhyw weision sifil i gynigion datganoli awdurdodaethol trwy gefnogaeth drawsbleidiol i ganfyddiadau'r confensiwn na chan unrhyw safiad gan Blaid Cymru ar y mater. Dylai unrhyw gonfensiwn o'r fath hefyd ystyried yn ofalus gyfyngiadau cyllidebol –

oherwydd fel y crybwyllwyd wrth basio uchod, byddai'r gyllideb ariannol fyddai ei hangen i weinyddu cyfiawnder sifil a throseddol yng Nghymru yn sylweddol.

Mae'r alwad am awdurdodaeth Gymreig ar wahan / ceisio cyflymu'r broses honno trwy gyflwyno gwelliannau i Atodlen 7 DLIC 2006 yn cyd-fynd yn daclus iawn â safbwynt Plaid Cymru eu bod yn cydnabod sofraniaeth pobl Cymru ym mater statws cyfansoddiadol Cymru. Mae'r hawl felly i CCC weinyddu y tu mewn i Gymru ac ar gyfer pobl Cymru gyfiawnder sydd yn deillio o'r nifer cynyddol o gyfreithiau a gynhyrchir gan CCC a chan senedd y DG , yn mynd law yn llaw â sofraniaeth pobl Cymru yn hyn o beth. Ni ddylai fod o bwys chwaith nad yw cyfreithiau yng Nghymru a Lloegr yn wahanol nac yn amrywio llawer ar sawl pwnc. Dylai'r hawl i weinyddu cyfiawnder y cyfreithiau hynny sy'n gymwys i bobl Cymru fod gyda CC, sef yr awdurdod deddfwriaethol a fydd, gobeithio, yn dwyn cyfrifoldeb cynyddol am basio prif ddeddfau yng Nghymru yn y dyfodol agos. Ni ddylai fod o bwys chwaith y byddai'r gweinyddu cyfiawnder a roddir i CCC dros faterion y byddid yn parhau i gael eu cadw'n ôl gan San Steffan. Yn yr Alban, er enghraifft, erys rhai agweddau o'r gyfraith droseddol yn faterion a gedwir yn ôl, ond mae'r grym i weinyddu cyfiawnder mewn perthynas â materion o'r fath yn dal yn bendant gyda senedd yr Alban.

Awen Fflur Jones

Troednodiadau

1. T Jones et al *"The Law of Wales or the Law of England and Wales"* SLR Vol26 no 3 P135-145
2. Ibid.
3. Winston Roddick – *Darlith Lloyd George 2008 – Datganoli Cyfiawnder*
4. Ibid
5. Source: Ibid, Philip Richards, *"Taking Control of Justice"*
6. Roderick Evans fel y'i dyfynnwyd yn J Williams 'Legal Wales' yn Osmond J a Jones JB (gol) *Birth of Welsh democracy; the first term of the NAW* (Caerdydd SMC 2003)
7. Fel y'i dyfynnwyd yn Nigel Johnson, *The Government of Wales Act 2006: Welsh Devolution Still a Process and Not an Event?* [2007] 4 Web JCLI
8. Fel y'i trafodwyd yn erthygl Keith Patchett ar *"Welsh Law"* yn *Agenda Gaeaf 2007/08*